OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1554 (Cy.152)

HADAU, CYMRU

Rheoliadau Hadau (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud - -	*11 Mehefin 2002*
Yn dod i rym - -	*9 Gorffennaf 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu mewn perthynas â Chymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16(1) ac (1A)(e) a 36 o Ddeddf Amrywiaethau Planhigion a Hadau 1964(**1**), ar ôl ymgynghori yn unol â'r adran 16(1) honno â chynrychiolwyr buddiannau o'r fath y mae'n ymddangos iddo eu bod yn berthnasol, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Teitl, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hadau (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2002, maent yn gymwys i Gymru a deuant i rym ar 9 Gorffennaf 2002.

Diwygio

2.—(1) Caiff Rheoliadau Hadau (Ffioedd) 1985(**2**) eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2 diwygir y diffiniad o "the Minister"—

(a) drwy fewnosod yn union ar ôl "Food" y geiriau "in relation to Wales the National Assembly for Wales"; a

(b) drwy ddileu'r geiriau "or Wales".

(3) Ym mharagraff A (Ffioedd cychwynnol) o Atodlen 2—

(a) yn is-baragraff (ii) yn lle'r geiriau "(except field beans and field peas)" rhoddir y geiriau "(except field beans, field peas, white lupin, narrow-leaved lupin (blue lupin), yellow lupin, Hungarian vetch, common vetch, hairy vetch and lucerne)"; a

(b) ar ôl is-baragraff (iii) mewnosodir y geiriad canlynol—

(**1**) 1964 p.14; diwygiwyd adran 16 gan Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p.68), adran 4(1) ac Atodlen 4, paragraffau 5(1), (2) a (3); gweler adran 38(1) (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1978/272) am ddiffiniad o "the Minister"; trosglwyddwyd swyddogaethau y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan Ddeddf Amrywiaethau Planhigion a Hadau 1964, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272); ac o dan erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo, fe drosglwyddwyd y swyddogaethau hyn, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**2**) O.S. 1985/981; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1990/610, 1999/1553, 1999/1865 a 2001/2533 (Cy.210).